

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL
www.llanfaircommunitycouncil.co.uk

Cofnodion cyfarfod cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd gan ddefnyddio'r plattform ffôn/fideo gynadledda Zoom nos Lun, 11 Ionawr 2021 am 7pm.

PRESENNOL – Y Cynghorwyr Jayne Mayers [Cadeirydd], Keith Mouldsdale [Is-gadeirydd], David Baker, Wini Davies, Owen Evans, Tim Faire, Osian Owen, Steve Whipp ac Eirwen Godden, Clerc

HEFYD YN BRESENNOL - 3 aelod o'r cyhoedd, ynghyd â Noela Jones, Pennaeth Gwasanaethau Tai Grŵp Cynefin, a'r Cynghorydd Sir Hugh Evans [sydd hefyd yn Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych]. Atgoffodd y Cadeirydd bawb y byddai'r sesiwn yn cael ei recordio ac y dylai unrhyw un a oedd yn dymuno derbyn rhagor o wybodaeth ar yr eitemau a drafodwyd anfon neges e-bost at y Clerc.

YMDDIHEURIADAU – Ceri Ranson [cyfarfod arall]

RHAN 1

735 DATGAN BUDDIANNAU Y Cynghorydd Keith Mouldsdale fel ymddiriedolwr Pwyllgor Rheoli Neuadd Eleanor a'r Cynghorydd David Baker fel aelod Cyngor Eglwys Llanfair.

736 COFNODION – PENDERFYNWYD

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod cyffredin a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2020 a'u llofnodi fel cofnod cywir, yn ddarostyngedig i fân ddiwygiadau.

737 MATERION CYMUNEDOL

737.1 Sedd wag ar y Cyngor Cynghorodd y Clerc fod y rheoliadau coronafeirws yn ei parhau i'w gwneud yn ofynnol i'r Cyngor Cymuned hysbysebu'r sedd wag yn dilyn marwolaeth y Cynghorydd Bob Barton. Cynhelir etholiad i lenwi'r sedd wag os cyflwyniad cais ysgrifenedig gan 10 etholydd llywodraeth leol i Swyddog Canlyniadau Cyngor Sir Ddinbych. Petai etholwyr yn gofyn am etholiad yna gallai'r etholiad gael ei ohirio i ddyddiad yn y Gwanwyn rhwng 01/03/21-06/05/21. Os na dderbynnir cais am etholiad caiff y Cyngor Cymuned lenwi'r sedd wag trwy gyfethol. Nododd yr aelodau'r angen i wneud yr hysbysiad sedd wag achlysurol yn gyhoeddus fel arfer yn gyntaf.

PENDERFYNWYD hysbysebu'r swydd wag yn unol â'r gweithdrefnau arferol.

737.2 Safle'r cyn ysgol a chae chwarae, Llanfair DC

Cyflwynwyd – Pwyntiau allweddol a baratowyd gan y Cynghorydd Steve Whipp. Cynhaliodd Tai Sir Ddinbych gyfarfod anffurfiol ar 06/01/21 [9.30-11am] ar gais y Cynghorydd Sir Hugh Evans i hwyluso trafodaeth anffurfiol ynghylch cyfle datblygu potensial cyn ysgol Llanfair DC. Estynnwyd gwahoddiad i gynrychiolwyr y Cyngor Cymuned, Canolfan Gydweithredol Cymru, Grŵp Cynefin, Cymdeithas Tai Clwyd Alyn a thimau Strategaeth Tai a Datblygu Cymunedol Cyngor Sir Ddinbych.

Datblygwyd cais Trosglwyddo Ased Cymunedol cam 2 ar gyfer cae chwarae'r ysgol. Croesawyd hyn gan bwyllgor asedau Cyngor Sir Ddinbych, ond roeddynt yn dymuno gweld datrysiadau 'safle cyfan.' Dywedodd y Cynghorydd Hugh Evans ei fod yn dymuno gweld Cyngor Sir Ddinbych yn darparu cymorth i'r Cyngor Cymuned i gynorthwyo gyda

hyrwyddo prosiect i ystyried defnydd potensial a bwrw hyn ymlaen gydag achos busnes cynaliadwy tymor hir. Rhagwelwyd mai datrysiad cymunedol fyddai'r llwybr mwyaf dymunol. Roedd yn gweld y cyfle i ddatblygu prosiect perthnasol yn dilyn y profiad Covid-19 a chreu cydnerthedd cymunedol. Roedd am i Gyngor Sir Ddinbych ddarparu cymorth ac awgrymodd benodi swyddog dynodedig. Dylid datblygu'r cynllun fel prosiect gyda thasglu i'w wireddu.

Cydnabuwyd y byddai cymryd cyfrifoldeb am y safle yn broses ddrud, gymhleth a heriol i gyngor cymuned bach. Mae cyfyngiadau gan ei fod mewn ardal gadwraeth, mae'r adeilad yn rhestredig ac mae gwagle agored gwarchoddedig. Er gwaethaf hynny mae potensial i wahanol sefydliadau weithio gyda'i gilydd [Cyngor Sir Ddinbych / cymdeithasau tai / Canolfan Gydweithredol Cymru] gan rannu arbenigedd, swyddog Cyngor Sir Ddinbych i gefnogi'r cyngor cymuned gydag astudiaethau dichonoldeb, nodi ffynonellau cylid potensial ac ati. Gwnaeth cynrychiolwyr Cydweithredfa Tai Cymru roi trosolwg o'r cymorth y gallent ei ddarparu. Er enghraifft, cyngor ynghylch y strwythur gorau ar gyfer unrhyw fenter a byddai'n medru cynorthwyo grŵp llywio a'u harwain drwy'r broses. Mae enghreifftiau o arfer dda mewn mannau eraill yn y rhanbarth. Dywedodd Fran Rhodes, Swyddog Datblygu Cymunedol Cyngor Sir Ddinbych, fod y prosiect yn cyd-fynd gyda chylch gwaith ei swydd hi a thra'n cynnig cymorth roedd am reoli'r disgwyliadau ynghylch faint o gymorth y gellid ei ddarparu. Awgrymodd ddatblygu rhestr blaenoriaethau a'r camau nesaf.

Codwyd cwestiwn am gael arolwg archwiliad annibynnol y safle/adeilad a chost ei adfer i safon addas i'w ddefnyddio. Roedd Rheolwr Asedau Cyngor Sir Ddinbych wedi gofyn i dîm ystadau Cyngor Sir Ddinbych i brisio'r safle, y cae chwarae a'r adeilad, ac awgrymodd pe na bai cynllun yn cael ei gyflwyno ar gyfer yr adeilad gellid ei roi ar y farchnad agored mewn chwe mis.

Y gweithredoedd o'r cyfarfod oedd:

- Cyngor Sir Ddinbych i ystyried pa gymorth cydlynu y gellid ei ddarparu i'r Cyngor Cymuned
- Y Cyngor Cymuned i ystyried y drafodaeth gweithdy ac awgrymu'r camau nesaf ar gyfer y gwaith dichonoldeb.
- Y Cyngorydd Steve Whipp i rannu'r wybodaeth ynghylch syniadau/anghenion y gymuned a awgrymwyd ar gyfer prosiectau
- Penny Storr, Cymdeithas Tai Clwyd Alyn, i gydgyssylltu gyda'r Cyngor Cymuned ynghylch yr asesiad tai gwledig
- Noela Jones, Cymdeithas Tai Grŵp Cynefin, i gydgyssylltu gyda'r Cyngor Cymuned ynghylch unrhyw gynnydd gyda'r elusendai.

Dywedodd Geoff Davies, Tai Sir Ddinbych, ei fod yn fodlon trefnu rhagor o gyfarfodydd neu is-grwpiau, yn ddelfrydol cyn diwedd Ionawr.

Cynhaliwyd cyfarfod fideo rhwng Penny Storr [Cymdeithas Tai Clwyd Alyn], Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor Cymuned ynghyd â'r Clerc ar 08/01/21 i drafod trefniadau ar gyfer yr arolwg anghenion tai gwledig a defnyddiau posibl ar gyfer cyn safle Ysgol Llanfair. Byddai'n cymryd tua tri mis cyn y byddai canlyniadau'r arolwg ar gael. Bydd

Cymdeithas Tai Clwyd Alyn yn talu cost cynnal yr arolwg, costau postio, trefnu dolen i arolwg ar-lein, hyrwyddo trwy Facebook a chyfryngau eraill. Bydd y Cyngor Cymuned hefyd yn allweddol yn hyrwyddo'r arolwg, sicrhau fod y gymuned yn cymryd rhan yn yr arolwg a digwyddiad ymgynghori. Nodwyd y gallai datblygiadau lleol sgiwio'r canlyniadau a rhoi canlyniad nad oedd angen rhagor o gartrefi yn Llanfair. Mae hyn oherwydd fod Cymdeithas Tai Clwyd Alyn yn adeiladau cartrefi yn Llanbedr, wedi bod yn llwyddiannus yn sicrhau caniatâd cynllunio yng Nglasdir, Rhuthun, wedi prynu eiddo yn y datblygiad ar Ffordd Wrecsam, Llanfair ac os yw Grŵp Cynefin yn dychwelyd yr elusendai i'w defnyddio fel cartrefi gallai tua 100 o gartrefi fforddiadwy fod ar gael i'r gymuned ehangach. Mae Tai Gogledd Cymru wedi cael 6 eiddo ar safle Ffordd Wrecsam yn Llanfair hefyd.

Nodwyd nad oedd Grŵp Cynefin wedi dangos diddordeb mewn cyfuno adfer yr elusendai gyda datblygu cyn safle'r ysgol. Fodd bynnag, gellid ystyried y ddau safle'n ormod o rwymedigaeth ac yn rhy'n ddrud i'w datblygu o gofio'r cyfyngiadau o fod mewn ardal gadwraeth, statws adeilad rhestredig a chost yr adferiad. Efallai mai datrysiad posibl fyddai adeiladu tai i gyllido datblygu adeilad yr hen ysgol, ond byddai angen swm mawr o gyllid cyfalaf. Byddai adeiladu chwech tŷ yn cynhyrchu amcangyfrif o £80,000 i'w fudsoddi. Roedd posibilrwydd y gallai tîm datblygu economaidd a ffynonellau/asiantaethau eraill ddarparu peth cyllideb cyfatebol ac arweiniad. Gallai Cyngor Sir Ddinbych gytuno i lesio'r tir am gyfnod. Mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru wedi mynegi diddordeb yn ardal y cae chwarae ac mae Drosi Bikes wedi gwneud ymholiadau ynghylch defnyddio'r adeilad.

Yn dilyn trafodaeth gyffredinol ac ystyried adborth o'r ddau gyfarfod **PENDERFYNWYD** fod y Cyngor Cymuned

- | | |
|--|---------------------------------|
| [a] yn cefnogi ac yn ymrwymo i'r arolwg tai | [gwybodaeth hanfodol |
| [b] yn cefnogi'r egwyddor o gynnal astudiaethau dichonoldeb masnachol a/neu gysylltu gydag asiant masnachol i asesu'r safle a'r defnyddiau posibl | [ar gyfer y Cynllun [Cymdogaeth |
| [c] cysylltu gyda Chyngor Sir Ddinbych ynghylch y posibilrwydd o sefydliadau fel Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru a Drosi Bikes, yn hytrach na'r Cyngor Cymuned, yn cymryd les byr am chwe mis, dyweder [dim gosodiadau parhaol] | |
| [d] cysylltu gyda thîm Datblygu Economaidd Cyngor Sir Ddinbych am gyngor ynghylch cyllido | |
| [e] gofyn i'r grŵp llywio gynorthwyo fel bo'n ofynnol megis cysylltu gydag asiantau masnachol, hybiau busnesau yn lleol, drafftio strategaeth – gan gysylltu'r dystiolaeth gyda'r matrices a luniwyd eisoes. | |

737.3 Elusendai Elizabeth Owen, Llanfair DC Diweddariad gan Noela Jones, Pennaeth Gwasanaethau Tai Grŵp Cynefin. Mae angen rhaglen uwchraddio gynhwysfawr i'r elusendai ond nid oes cyllid digonol ar gael. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r Gymdeithas Elusendai, ond ni nodwyd ffynonellau cyllid. Mae'r elusendai wedi'u cofrestru gyda Homes England sy'n golygu nad oes cyllid grant ar gael gan Lywodraeth Cymru. Cynhaliwyd arolwg ond roedd amcangyfrifiadau'r costau adnewyddu'n uchel iawn – amcangyfrif o £600,000 – ac mae'r lle ar gyfer parcio'n gyfyngedig. Cysylltwyd gyda Chydweithdredfa Tai Cymru am gyngor ac mae'n aros am ymateb. Mae Grŵp Cynefin wedi ymchwilio i wahanol lwybrau potensial heb unrhyw lwyddiant hyd yma. Un

opsiwn fyddai cysylltu gyda'r Comisiwn Elusennau i ystyried dadgofrestru. Byddai datblygu'n y dyfodol yn ddibynnol ar grant cyfalaf.

Mynegwyd pryderon fod yr elusendai wedi cyrraedd pwynt tyngedfennol o ran dichonoldeb, nid oes gan unrhyw gymdeithas dai ddi-ddordeb oherwydd y costau, tra bo galw am ddatblygu cartrefi ar gyfer anghenion lleol. Holwyd ynghylch cael cyllid fferm wynt [hyd at 80% o'r costau], ystyried dull datrysiad cyfan – y posibilrwydd o gysylltu'r gwaith adnewyddu gyda datblygu'r hen ysgol. Gellid darparu lle parcio yn ardal yr hen ysgol neu ar yr ardal laswellt o flaen yr elusendai.

Diolchodd y Cadeirydd i Noela am y diweddariad. Bydd yn hysbysu'r Cyngor Cymuned ynghylch unrhyw ddatblygiadau.

737.4 Ffordd osgoi Llanfair DC Dywedodd y Cyngorydd David Baker fod hwn yn syniad a drafodwyd yn y gorffennol. Petai tir nesaf at neuadd y pentref yn cael ei ddynodi'n safle ymgeisiol a'i ddatblygu gellid cael cyfle i lunio ffordd osgoi'r pentref yr un pryd. Gallai'r ffordd fod o Tŷ'n Twll heibio'r gweithfeydd carthion gan symud y ffordd o ganol y pentref. Dywedodd y Cyngorydd Steve Whipp y byddai'n cynnwys y syniad yn y Cynllun Cymdogaeth.

738 GOHEBIAETH

738.1 Cyflwynwyd – Diweddariad gan Adran Cynllunio a Thai Strategol Cyngor Sir Ddinbych ynghylch **Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2018-2033**. Nodwyd fod y pandemig cyfredol wedi effeithio ar y cynnydd, a oedd wedi arwain at oedi casglu llawer o'r dystiolaeth angenrheidiol i gefnogi datblygu polisïau manwl ac ni fydd Cyngor Sir Ddinbych yn medru bodloni'r amserlen Cytundeb Cyflawni'r Cynllun Datblygu Lleol newydd. Anfonir hysbysiad maes o law ynghylch y trefniadau ymgynghori ynghylch y Cytundeb Cyflawni diwygiedig. Ni wnaed unrhyw argymhellion hyd yma ynghylch unrhyw rai o'r safleoedd ymgeisiol a gyflwynwyd i'w hystyried yn y Cynllun Datblygu Lleol; mae'n annhebygol y bydd unrhyw newyddion ynghylch argymhellion safleoedd am chwe mis o leiaf. Bydd y Cynllun Datblygu Lleol cyfredol yn parhau i fod y cynllun datblygu a ddefnyddir ar gyfer asesu unrhyw geisiadau cynllunio nes bo'r Cynllun Datblygu Lleol newydd wedi'i fabwysiadu. Nodwyd.

739 Adborth/Adroddiadau o Gynadleddau / Hyfforddiant / Cyfarfodydd -

739.1 Hyfforddiant Un Llais Cymru Adroddwyd fod y Clerc wedi bod mewn sesiwn hyfforddiant o bell ynghylch Cyllid Llywodraeth Leol lefel uwch ar 17/12/20 a oedd yn cwmpasu rolau a chyfrifoldebau'r Cynghorwyr a'r Clerc [Swyddog Ariannol Cyfrifol] yn cydymffurfio gyda gofynion y broses archwilio mewnol ac allanol bob blwyddyn, pwysigrwydd cael dulliau rheoli digonol yn eu lle i wirio trafodion, diogelu asedau, asesu risgiau ac ansawdd yr adroddiadau ariannol i leihau risgiau/twyll/gwallau.

740 CYNLLUNIO www.sirddinbych.gov.uk/cynllunio

740.1 Cais 20/2020/0958 a gyflwynwyd gan Mr a Mrs G Evans – Gosod adeilad ar gyfer storio offer, peiriannau a thŵls - Pendyffryn, Pentre Coch. Cytunodd yr aelodau gyda'r gweithredu gan y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Cynghorwyr David Baker a Steve Whipp i gefnogi'r cais.

741 PRIFFYRDD A'R AMGYLCHEDD – Diweddariad cyffredinol ynghylch materion priffyrdd a materion eraill sy'n parhau –

741.1 Gardd Gymunedol a Maes Chwarae yng Nghraigfechan – Anfonwyd neges e-bost ar 04/01/20 i Dai Sir Ddinbych i gefnogi ardal blodau gwyllt gyda seddi ar ben y cul de sac; maes chwarae i'r dde o'r gysgodfan bws i gynnwys ffens ac offer chwarae maes o law. Disgwylir am ateb.

741.2 Llifogydd

Adroddodd y Clerc y derbyniwyd ymateb gan Alex Bebbington, Swyddog Risg Llifogydd Cyngor Sir Ddinbych, yn dweud ei fod yn fodlon siarad gyda'r Cynghorwyr am eu pryderon. Roedd y Cynghorydd Osian Owen wedi mynegi'r angen am gwlliau yn y cae nesaf at gilfan Ysgol Pentrecelyn sy'n dioddef llifogydd yn rheolaidd. Roedd y Cynghorydd Keith Mouldsdale wedi mynegi pryder fod rhai o'r byngalos yn Llanfair yn dioddef amodau llaith gan fod y tir yn wlyb iawn yn y cyffiniau hynny. Cytunwyd y gellid rhannu manylion cyswllt rhwng y Cynghorwyr ac Alex Bebbington.

Yn y cyfamser mae'r Cynghorydd Steve Whipp wedi siarad gyda pherchennog Gorsaf Eyarth sydd wedi cysylltu gyda'r ffermwr a pherchennog y caeau i'r gorllewin o'r orsaf, sy'n fodlon cydweithredu i ganfod datrysiad. Cysylltwch gyda Choleg Llysfasi hefyd, sy'n ffermio'r cae gyferbyn. Defnyddiwyd hwn ar gyfer india corn yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae'r dŵr ffo oddi ar y cae wedi bod yn cyfrannu'n fawr i'r broblem llifogydd. Mae'r dŵr ffo yn cynnwys llawer o bridd/mwd hefyd. Mae angen hefyd i adfer y llwybr cyhoeddus sy'n mynd o ochr ogleddol y tai newydd yn Llanfair i Eyarth. Mae angen ffens. Cytunwyd y dylid cysylltu gyda Choleg Llysfasi eto gyda'r nod o drefnu cyfarfod i adolygu'r sefyllfa ac ystyried pa opsiynau y gellid eu cynnig.

741.3 Effaith Peiriannau Trwm ar ffyrdd gwledig cul Adroddwyd mewn cyfarfod blaenorol fod y Cynghorydd Sir Hugh Evans wedi cytuno i gyfarfod gyda Pheiriannydd Priffyrdd i gynnal arolwg safle yr ardaloedd wedi'u heffeithio. Atgoffwyd yr aelodau fod angen anfon rhestr y problemau roeddynt yn ymwybodol ohonynt at y Clerc. Mae'r mater yn parhau.

741.4 Gwasanaethau Rheoli Gwastraff Neges e-bost dyddiedig 11/01/20 gan breswlydd a oedd yn dymuno gwneud ymholiad ynghylch cynnig posibl y byddai Cyngor Sir Ddinbych yn cyflwyno cynlluniau biniau ac ailgylchu newydd o 2022, gyda'r posibilrwydd na fyddai preswylwyr sy'n byw ar ffyrdd heb eu mabwysiadu a/neu ffyrdd preifat yn medru cael casgliadau o fin y ffordd a bydd rhaid iddynt fynd â'u gwastraff/deunyddiau ailgylchu i leoliad canolog. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda Chyngor Sir Ddinbych am esboniad a rhagor o wybodaeth am y mater hwn.

742 MATERION ARIANNOL

742.1 Cyflwynwyd – Crynodeb Incwm a Gwariant a Derbynebaw a Thaliadau am y cyfnod 1 Ebrill tan 31 Rhagfyr 2020 Balansau yn y banc ar 31/12/20 – Cyfrif Cymunedol £21388.98 a Chyfrif Busnes £8566.14 yn gwneud cyfanswm o £29955.12 mewn credyd. Roedd £25000 wedi'i drosglwyddo o'r cronfeydd wrth gefn a'i ychwanegu at y gyllideb Cofeb Rhyfel ar 31/12/20 tuag at gostau'r gwaith adnewyddu. Byddai

amcangyfrif gwariant o £11,200 hyd at 31/03/20 yn gadael ffigur cario trosodd o £18755 i flwyddyn ariannol newydd 2021/22. Cadarnhaodd y Clerc y byddai'r arian yn y cronfeydd wrth gefn yn cydymffurfio gyda'r safonau a bennwyd gan yr archwilwyr. Er enghraifft, dylid dal ffigur isafswm o 20% hyd at ffigur uchafswm o 100% o'r praesept mewn cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a gellir dyrannu cyllid i un neu ragor o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, i'w defnyddio ar gyfer diben penodol yn y dyfodol. **PENDERFYNWYD** cymeradwyo [a] y gweithredu gan y Clerc i drosglwyddo £25000 o'r cronfeydd wrth gefn i'w ychwanegu i gronfa'r Gofeb Rhyfel a [b] y cyfrifon fel y'u cyflwynwyd.

742.2 Cyflwynwyd – Drafft 2 y gyllideb braesept ar gyfer 2021/22 [dyddiad cau 15/01/21] Esboniodd y Clerc y dylai cadw'r cais praesept o dan £30,000 olygu fod y dreth gyngor [wedi'i seilio ar yr eiddo cyfartalog Band D] yn parhau yn is na ffigur 2020/21 o £1,728.90. Gan fod nifer o brosiectau/cynigion yn y Cynllun Cymdogaeth a fydd angen cymorth cyllideb cytunwyd, fel y trafodwyd yn y cyfarfod diwethaf, y dylid cynyddu'r gyllideb Gweithgareddau Cymuned. Bydd yn ofynnol adolygu'r gyllideb yn gyfnodol yn dibynnu ar y cynigion a gyflwynir o ran safle'r cyn ysgol yn Llanfair angen cymorth ariannol/ariannu cyfatebol. Mae'r datblygiadau yn eu camau cynnar iawn. Holodd y Cynghorydd Whipp a ellid lleihau unrhyw elfennau'r gyllideb o gwbl, a ysgogodd drafodaeth gyffredinol. Atgoffwyd yr aelodau am eu cyfrifoldeb i gadw cronfeydd wrth gefn digonol, cyfrifoldeb y Cyngor Cymuned am wal mynwent yr eglwys ac, os yw Cyngor Sir Ddinbych yn cytuno i lesio safle'r hen ysgol, gallai fod yn ofynnol darparu cyllid ar gyfer gwahanol brosiectau, felly cytunodd y Cynghorwyr ar y gyllideb ddrafft yn ddarostyngedig i fân newidiadau.

PENDERFYNWYD cyflwyno cais am gyllideb braesept o £29169 ar gyfer 2021/22 gan Gyngor Sir Ddinbych.

742.3 Talu Cyfrifon/Anfonebau PENDERFYNWYD gwneud taliadau fel a ganlyn:
£378.30 Sandra Williams [Gwasanaeth Cyfieithu]
£142.78 Treuliau'r Clerc, Hydref – Rhagfyr 2020

742.4 Ceisiadau am Gymorth Ariannol Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau. Ceisiadau wedi'u gohirio i'w hystyried yng nghyfarfod mis Chwefror. Dywedodd y Cynghorydd Whipp y byddai'n dileu'r cyfeiriad at arolygon a chronfeydd cyfalaf ar gyfer cyrff crefyddol o'r Cynllun Cymdogaeth. [Mae Deddf 1894 sy'n ymdrin â chymorth ariannol i'r Eglwys yn gwahardd Cynghorau rhag ymwneud ag eiddo sy'n ymwneud â'r Eglwys e.e. cynnal a chadw neu wella adeiladau neu dir neu gyfrannu at y costau. Fodd bynnag, mae deddfwriaeth a luniwyd ar ôl Deddf 1894 yn caniatáu i gyngor wario at unrhyw ddiben ac eithrio un sy'n ddarostyngedig i waharddiad, cyfyngiad neu derfyn statudol].

742.5 Dogfennau Polisi Cyflwynwyd [a] Cofrestr Asedau wedi'i diweddarau a [b] Polisi Pryderon a Chwynion drafft.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Gofrestr Asedau wedi'i diweddarau a mabwysiadu'r Polisi Pryderon a Chwynion drafft fel y'i ysgrifennwyd.

RHAN 2 743 PENDERFYNWYD eithrio'r Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol yr eitem a ganlyn:

743.1 GWAITH TRWSIO AC ADFER COFEB RHYFEL LLANFAIR Roedd y gwaith o adnewyddu'r Gofeb Rhyfel bron â'i gwblhau ac eithrio'r cadwyni a'r cerrig copin ar y wal gefn y tu ôl i'r gofeb. Roeddynt yn disgwyl i gyflenwad ychwanegol o gerrig copin gael eu danfon i'r safle.

744 DYDDIADAU CYFARFODYDD YN Y DYFODOL

08/02/21 [cyfarfod rhithiol], 08/03/21 [cyfarfod rhithiol]. Nodwyd, yn sgîl y cyfyngiadau clo cyfredol fod cyfarfodydd fideo gynadledda'n debygol o barhau tan fis Ebrill 2021 o leiaf.

Gorffennodd y cyfarfod am 8.40 pm

_____ CADEIRYDD _____ DYDDIAD